# Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant

## Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

## Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig 2021/1

## Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

*Dylid cynnwys:*

- *Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal*
- *Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad*
- *Y cyfnod dan sylw a pham*
- *Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol i'w hychwanegu fel atodiad*

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar 06/05/2021 ar argymhelliad Is-grŵp Adolygu Ymarfer Plant yn unol â'r ddeddfwriaeth statudol a osodwyd yn adran 139 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau atodol Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant (Llywodraeth Cymru, 2016).

Diwallwyd y meini prawf ar gyfer yr adolygiad dan Bennod 7, Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig:

Mae'n rhaid i'r Bwrdd gynnal adolygiad ymarfer plant estynedig dan yr achosion canlynol, pan fo, o fewn ardal y Bwrdd, camdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu pan fo amheuaeth o hynny, a bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n bygwth bywyd; neu
- wedi cael nam difrifol a pharhaol ar iechyd neu ddatblygiad; a bod y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu yn blentyn a oedd yn derbyn gofal (gan gynnwys unigolyn sydd yn 18 mlwydd oed, ond a oedd yn blentyn a oedd yn derbyn gofal) ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis blaenorol - o ddyddiad y digwyddiad y cyfeiriwyd ato uchod; neu'r

- dyddiad y bu i'r awdurdod lleol neu'r partner perthnasol nodi bod plentyn wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a datblygiad.

Diben yr adolygiad yw nodi unrhyw ddysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'n cynnwys asiantaethau, ymarferwyr a theuluoedd yn ymdrechu ar y cyd i fyfyrio a dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn gwella arfer yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar atebolrwydd ac nid ar feiusrwydd. Diben adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo ymarfer rhyng-asiantaeth a phlentyn mewn perygl yn y dyfodol. (Cydweithio i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant, Llywodraeth Cymru, 2016).

Cynhelir yr adolygiad gan ddau adolygwr sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd, ac sydd wedi'u penodi gan y Panel Adolygu. Bydd ganddynt gyfrifoldeb i archwilio sut y cyflawnwyd dyletswyddau statudol yr holl asiantaethau perthnasol, ac adrodd ar hyn i'r Panel Adolygu a'r Bwrdd.

**Methodoleg:**

- Cynullwyd Panel Adolygu gyda Chadeirydd.
- Penodwyd dau Adolygwr.
- Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl
- Datblygwyd llinell amser gan bob asiantaeth.
- Cynhyrchwyd crynodeb / dadansoddiad o gyfranogiad pob gwasanaeth gan Aelodau'r Panel.
- Anfonwyd llythyr at y teulu yn rhoi'r cyfle iddynt gymryd rhan yn y broses.
- Digwyddiad Dysgu ar gyfer ymarferwyr.
- Cynhyrchwyd Adroddiad Adolygu gyda phwyntiau dysgu a'i gyflwyno i'r Panel Adolygu.
- Bu i'r Panel Adolygu gwrdd i gwblhau'r adroddiad.
- Datblygwyd cynllun gweithredu o'r argymhellion.
- Bu i'r Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu gyflwyno'r Adroddiad Adolygu i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd yn ôl i'r Teulu.
- Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan BDPGC.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu fel a ganlyn:

- Addysg
- Iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol

**Llinell amser**

Y llinell amser ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig yw o'r 1 Mai 2019, pan ddaeth cyfnod cyntaf cofrestriad ar y Gofrestr Diogelu Plant i ben hyd at 17 Mawrth

2021 sef dyddiad marwolaeth y plentyn. Gofynnwyd hefyd i asiantaethau ystyried eu cysylltiad cyn y llinell amser, os yw'n berthnasol.

Roedd gwybodaeth ar gael o ran ymgysylltiad proffesiynol gyda'r plentyn a brodyr a chwiorydd y plentyn. Roedd hyn yn darparu darlun cliriach o weithrediad y teulu a beth oedd profiad bywyd dyddiol y plentyn yng nghyd-destun y teulu.

**Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad**

Ar 17 Mawrth 2021, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru alwad yn ymwneud â bachgen 10 mlwydd oed a oedd wedi'i ganfod yn crogi yn ei gyfeiriad cartref. Hysbyswyd Heddlu Gogledd Cymru bod tad y plentyn yn gwneud CPR. Hysbyswyd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ac roeddent ar eu ffordd ac fe anfonwyd swyddogion Heddlu Gogledd Cymru i'r lleoliad. Aethpwyd â'r plentyn yn syth i Ysbyty Glan Clwyd gan y parafeddygon. Am 13:29, datganwyd fod y plentyn yn farw.

Nid oedd gan y plentyn unrhyw hanes hysbys o broblemau iechyd meddwl, nac unrhyw ymddygiad hunan-niweidio ac roedd mewn iechyd da.

Nododd adroddiad y Crwner mai achos meddygol y farwolaeth oedd marwolaeth drwy anffawd.

**Hanes Teulu'r Plentyn a Gwybodaeth Gyd-destunol**

Roedd y plentyn yn blentyn canol mewn grŵp o wyth o blant. Nid oedd gan y ddau blentyn hŷn yr un tad biolegol â'r plentyn. Roedd yr wyth o blant yn byw gyda rhieni biolegol y plentyn, ond ar adeg marwolaeth y plentyn roedd y plentyn hynaf yn byw gyda'i gariad. Roedd gan y plentyn berthynas agos gyda'i ddau frawd hŷn, yr oedd yn rhannu llofft â nhw. Roedd y tri brawd yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd ar eu beics o gwmpas y gymuned leol, neu'n adeiladu cuddfan yn y coetir cyfagos. Roedd y plentyn wrth ei fodd yn chwarae gyda Chiwb Rubik. Mae cofnodion yr ysgol hefyd yn nodi fod gan y plentyn berthynas agos gyda'i dad, gydag achosion lle roedd y plentyn yn drist ac yn crio am ei dad. Roedd yr ysgol wedi nodi fod gan y plentyn ffrindiau, ei fod yn rhyngweithio'n dda gydag eraill, yn mwynhau siarad gydag oedolion o gwmpas yr ysgol ac yn mwynhau helpu ac yn ymddangos fel plentyn a oedd eisiau plesio ei athrawon.

Rhwng 2018 a 2019 roedd y plant yn destun Cofrestriad Amddiffyn Plant o dan gategori Esgeulustod a Niwed Rhywiol gyda phryderon yn dyddio'n ôl i 2017. Roedd y pryderon a nodwyd ar y pryd yn canolbwyntio ar ddiffyg gallu'r rhieni i ddiwallu anghenion y plant yn ogystal ag adroddiadau bod y fam yn defnyddio cyffuriau tra'n feichiog. Roedd pryderon hefyd fod y plant yn ymwneud â Throseddwr Rhyw Cofrestredig. Mae'n rhaid nodi na chafwyd unrhyw ddatgeliadau gan unrhyw un o'r plant, yn ystod y cyfnod, eu bod wedi dioddef niwed gan y Troseddwr Rhyw dan sylw.

Mae llinell amser ymgysylltiad proffesiynol yn dangos o'r pwynt y cawsant eu tynnu o'r gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2019, mae'n ymddangos bod y rhieni wedi datgysylltu gyda'r gwasanaethau'n gyflym ac fe godwyd pryderon mewn perthynas â:

- Llau pen ar y plant
- Y plant yn methu apwyntiadau iechyd
- Y plant yn cymryd bwyd oddi ar blant eraill ac athrawon yn yr ysgol
- Y plant yn ymddwyn yn heriol / bwlio yn yr ysgol
- Presenoldeb yn yr ysgol yn dirywio'n sylweddol
- Plentyn yn dioddef anafiadau fel asen wedi'i chleisio a thorri asgwrn yn eu llaw
- Pryderon yn codi am gam-drin domestig
- Diffyg ffiniau a chanlyniadau cysylltiol ar gyfer y plant

Mae'r holl bryderon wedi'u cofnodi o fewn chwe mis o'u dadgofrestru.

Erbyn mis Tachwedd 2020, yn dilyn pryderon parhaus am bresenoldeb y plant yn yr ysgol, methu apwyntiadau iechyd, amodau gwael yn y cartref, y fam yn camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl y fam, gan arwain at gwestiynu priodoldeb eu Gofal, gwnaed penderfyniad y dylid cyflwyno'r achos eto i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Yn ystod y gynhadledd gwnaed penderfyniad y dylai'r plant, gan eithrio'r hynaf a oedd bron yn oedolyn, gael eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant eto, o dan gategori Esgeulustod a Niwed Emosiynol. Roedd y niwed emosiynol yn deillio o ymddygiad yr hynaf yn cael effaith negyddol ar les emosiynol y plant iau.

Mae'r llinell amser yn dangos rhwng y cyfnodau o ddadgofrestru yn 2019 a'r pwynt lle ail gofrestrwyd y plant ym mis Tachwedd 2020, bu newid yn ymddygiad ac agwedd y plentyn. Roedd plentyn a ddisgrifiwyd fel rhywun oedd eisiau helpu a phlesio ei athrawon, a oedd yn bihafio'n dda yn y dosbarth ac ar yr iard, gyda grŵp da o ffrindiau, yna'n cael ei ddisgrifio fel plentyn a oedd yn anafu ei gyfoedion ar fwy nag un achlysur; gydag un digwyddiad wedi'i gofnodi lle yr honnwyd ei fod wedi taflu un o'i gyfoedion i'r llawr ac ymosod arno. Mae'n bwysig nodi rhwng dyddiad cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Tachwedd 2020 a'i farwolaeth ym mis Mawrth 2021, nid oedd unrhyw bryderon nodedig wedi'u codi mewn perthynas â'r plentyn, ac eithrio ei ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol ac fe nodwyd ei fod yn anfodlon mynd i'r ysgol (noder: roedd yr ysgol a'i rieni wedi adrodd am hyn). Nododd yr ysgol ei fod yn iawn pan oedd yn yr ysgol, roedd yn lân ac yn iach, gyda nifer o ffrindiau ac yn gweithio'n dda gydag eraill. Mae'n bwysig nodi wrth ddarllen cofnodion y grŵp craidd yn dilyn ail gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Tachwedd 2020 nad oes cyfeiriad penodol at y plentyn heblaw am bryder o ran ei bresenoldeb yn yr ysgol a'r gefnogaeth yr oedd ei hangen i gwblhau gwaith ysgol (fel y rhannwyd gan ei fam yn y gynhadledd adolygu Amddiffyn Plant ym mis Chwefror 2021). Y tro diwethaf y gwelwyd y plentyn oedd deuddydd cyn ei farwolaeth yn ystod ymweliad statudol Amddiffyn Plant lle y gwelwyd y plant gyda'i gilydd dan oruchwyliaeth y rhieni gan nad oeddent yn caniatáu i'r gweithiwr cymdeithasol ddod i'r cartref. Yn

ystod y digwyddiad dysgu rhannwyd, yn ystod sesiwn oruchwylio ar 9 Mawrth, cafwyd trafodaeth rhwng Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn a'r rheolwr i benderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos at gyfarfod panel adnoddau i ystyried Cyfarfod Rheoli Mynediad Cyfreithiol oherwydd na wnaed llawer o gynnydd gyda'r teulu a'r mynediad cyfyngedig at y plant.

Ar 23 Mawrth 2020 fe roddwyd cyfarwyddyd i'r genedl gyfan aros gartref oherwydd COVID 19. Roedd yn rhaid i'r ysgolion gau eu drysau i'r mwyafrif o ddisgyblion gyda dim ond plant y gweithwyr allweddol neu blant a oedd yn cael eu hystyried yn ddiamddiffyn oedd yn cael mynychu lleoliad addysgol; yr Hwb. Fe gynigiwyd lle i'r plentyn a'i frodyr a'i chwiorydd yn yr Hwb ond oherwydd pryderon am COVID-19 fe wrthododd y rhieni'r cynnig ac fe drïodd yr adran addysg gynnal ymweliadau lles a sicrhau bod cyfrifiadur ar gael er mwyn i'r teulu gael dysgu ar-lein, ond gwrthodwyd y ddau gynnig. Mewn ymateb i hyn fe wnaeth yr ysgol gynhyrchu pecynnau papur ar gyfer y plant ond nid oeddent yn cael eu casglu'n aml ac nid oeddent yn cael eu cwblhau.

Nodwedd drwy gydol y llinell amser oedd ymddygiad y plant hŷn ac mae'n ymddangos y rhoddwyd llawer o sylw a chefnogaeth i un o'r plant hŷn ac i'r rhieni mewn perthynas â'i ymddygiad. Cwblhawyd llawer o waith uniongyrchol gyda'r plentyn hŷn ar reoli gwylltineb, a darparwyd cefnogaeth i'r rhieni hefyd oherwydd bod y fam wedi nodi ei bod yn cael trafferth rheoli ei ymddygiad. Mae'n bwysig nodi bod nifer o achlysuron wedi'u dogfennu gan weithwyr proffesiynol sy'n nodi bod tensiwn ac anghysondeb yn arddulliau magu plant y fam a'r tad. Arsylwyd nad oedd y fam yn gosod ffiniau a chanlyniadau, tra bo'r tad yn ceisio gweithredu'r rhain. Yn y grŵp craidd ym mis Mawrth 2021 nodwyd bod y tad yn rhannu ei fod yn teimlo nad yw ef a'r fam yn unedig yn eu dulliau magu plant a'i fod wedi penderfynu "cymryd cam yn ôl" o hynny. Mae'r llinell amser yn dangos y bu digwyddiadau sylweddol yn y cartref mewn perthynas â'r plentyn hŷn, a fyddai yn ôl yr adolygwyr yn effeithio ar y plentyn dan sylw gan fod y digwyddiad yn cynnwys galw'r heddlu i'r cartref ar ôl i'r plentyn hŷn fygwth gwneud niwed corfforol i'r rhieni. Teimlir bod hyn yn hynod arwyddocaol o ystyried perthynas gadarnhaol y plentyn gyda'r plentyn hŷn. Mae hefyd yn amlwg bod y plentyn hŷn weithiau yn derbyn cyfrifoldeb i ofalu am y plant iau ac yn teimlo fel y plentyn hynaf, a bod y tad gymaint yn hŷn na'r fam, mai ei gyfrifoldeb ef oedd gofalu am y plant iau.

Roedd yr ymarferwyr a oedd yn ymwneud â'r adolygiad hefyd wedi rhannu ei fod yn hysbys bod y teulu wedi'u gwrthod gan y gymuned leol, gyda sawl digwyddiad lle bo'r plant wedi'u cyhuddo o gamymddwyn ac fe gywilyddiwyd y teulu'n gyhoeddus ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd digwyddiad hefyd lle cafodd un o'r plant hŷn eu cam-drin ar lafar gan aelod o'r cyhoedd.

Nodwedd arall a nodwyd wrth adolygu'r achos oedd pryderon a godwyd gan nifer o weithwyr proffesiynol mewn perthynas ag iechyd meddwl y fam. Roedd y rhestr o ddisgwyliadau a ddatblygwyd ym mis Ebrill 2020 yn nodi'n glir bod angen i'r fam ymgysylltu â chefnogaeth iechyd meddwl a gofyn am adolygiad o'i meddyginiaeth

gan y Meddyg Teulu, ac fe wnaeth y fam hynny mewn perthynas ag ail-ddechrau ei meddyginiaeth gwrthiselyddion. Ond, erbyn mis Medi 2020 adroddir bod y fam wedi rhoi'r gorau i'r feddyginiaeth heb ymgynghori â'r Meddyg Teulu. Nododd y gweithwyr proffesiynol eu bod yn ei gweld yn anodd asesu iechyd meddwl y fam a'i effaith gan y byddai'r fam yn gwrthod ymweliadau neu os oeddent yn cael eu cynnal byddent ar y stepen drws neu yn y lôn fach wrth ymyl y tŷ, gan gyfyngu manylder y sgwrs. Mae'n amlwg bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn rhagweithiol yn annog a chefnogi'r fam i dderbyn cefnogaeth mewn perthynas â'i hiechyd meddwl, gan ddefnyddio negeseuon testun a galwadau ffôn i'w hatgoffa i sicrhau ei bod yn cymryd ei meddyginiaeth ac yn mynd i'w hapwyntiadau.

Codwyd pryderon o ran y fam yn camddefnyddio sylweddau gyda nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol yn rhannu eu pryderon ac effaith hynny ar iechyd meddwl y fam. Rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2020 (y pwynt lle ail-gofrestrwyd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant) roedd nifer o achlysuron lle bo'r gweithwyr proffesiynol yn credu bod y fam o dan ddylanwad sylweddau gan gynnwys achlysur ym mis Gorffennaf 2020 lle bo'r fam wedi rhannu gyda gweithiwr gofal cymdeithasol ei bod wedi cymryd cyffuriau (ac yna'n gofyn i'r gweithiwr beidio â rhannu hynny gyda Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn). Ym mis Tachwedd 2020, roedd adroddiad yr Heddlu yn y gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol yn nodi bod y fam yn cymryd meddyginiaeth ei hunan ar ffurf amffetaminau ac yn cuddio ei defnydd o gyffuriau oddi wrth ei phartner. Roedd y rhestr o ddisgwyliadau'n nodi'n glir na chaiff y fam fod o dan ddylanwad sylweddau o amgylch y plant. I gefnogi'r fam cynigiwyd atgyfeiriad i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ond fe wrthododd yr atgyfeiriad.

**Safbwynt y Teulu**

Hysbyswyd rhieni'r plentyn am yr adolygiad ymarfer plant a rhoddwyd gwahoddiad iddynt gyfarfod â'r adolygwyr, cytunodd y fam ond dewisodd y tad i beidio â chymryd rhan.

Cyfarfu'r adolygwyr gyda'r fam yn ei chyfeiriad cartref yn ystod y prynhawn ar 30 Medi 2022. Eglurodd yr adolygwyr bwrpas yr ymweliad ac egluro bod hyn yn gyfle iddi rannu ei safbwyntiau. Croesawodd y fam yr adolygwyr i'w chartref ac roedd yn ymddangos ei bod yn gyfforddus yn siarad yn agored am ei phrofiad.

Rhannodd y fam gyda'r adolygwyr bod ei mab, y plentyn dan sylw yn yr adolygiad, yn fachgen cariadus a hapus, a oedd yn mwynhau mynd allan gyda'i frodyr ar ei feic o gwmpas yr ardal leol. Rhannodd y fam ei bod hi hefyd ar un adeg yn mwynhau mynd ar ei beic gyda'r plant ond ers colli ei mab roedd yn teimlo y byddai'n dod â gormod o atgofion poenus yn ôl ar hyn o bryd.

Rhannodd y fam er bod gan ei mab ffrindiau nid oedd yn hoffi tyrfa fawr yn yr ysgol ac nid oedd yn fodlon ei fod yn aml yn cael ei gadw'n ôl yn y dosbarth am beidio â gorffen ei waith, a byddai hyn yn aml yn golygu ei fod yn gwrthod mynd i'r ysgol.

Roedd y fam yn teimlo bod pandemig COVID 19 yn gyfnod hapus iddynt fel teulu o ran treulio amser gyda'i gilydd fel teulu, ond roedd yr addysgu yn y cartref yr oedd disgwyl iddi ei wneud yn anodd gan ei bod yn teimlo nad oedd ganddi'r sgiliau llythrennedd i gwblhau'r gwaith.

Rhannodd y fam o ran y broses amddiffyn plant a'r cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth, ei bod yn teimlo bod y cynllun mewn lle i sicrhau presenoldeb y plant yn yr ysgol, i fynychu apwyntiadau ac i gadw'r plant yn ddiogel; fe gyfeiriodd at ei theulu ei hun ac nad yw'n cysylltu â rhai aelodau o'r teulu er mwyn diogelu'r plant. Pan ofynnwyd iddi a oedd hi'n teimlo bod y gynhadledd amddiffyn plant yn rhoi sylw unigol i bob plentyn roedd y fam yn teimlo y gwnaed hyn ac y rhoddwyd sylw unigol i bresenoldeb y plant yn yr ysgol.

Rhannodd y fam y bu tensiwn rhwng y teulu a'r gymuned a sut y byddai'r plant yn aml yn cael bai am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned a bod y plant yn ymwybodol o anawsterau gyda'r cymdogion.

Rhannodd y fam nad yw hi a thad y plant mewn perthynas mwyach (daeth y berthynas i ben ar ôl marwolaeth y plentyn), er ei fod yn parhau i fod yn rhan o fywyd y plant. Yn ddiddorol, rhannodd y fam fod ei ffrindiau wedi nodi ei bod yn ymddangos yn fwy hyderus yn awr gan nad ydynt gyda'i gilydd mwyach, ac fe rannodd ei bod yn fwy cyfforddus yn cwestiynu neu'n herio'r tad os ydi'n anghytuno ag ef yn awr, ond pan oeddent mewn perthynas nid oedd yn teimlo y gallai wneud hynny. Mae'n rhaid nodi na ddatgelwyd unrhyw gam-drin domestig i'r adolygwyr ond mae hyn yn rhoi rhyw syniad o ddynameg eu perthynas.

Roedd yn amlwg o'r sgyrsiau bod llawer o gariad a chynhesrwydd emosiynol rhwng y fam a'r plentyn ac roedd yn siarad yn falch am ei mab ac yn rhannu atgofion hapus, ynghyd ag atgofion anodd am ei oriau diwethaf. Roedd galar y fam yn amlwg ac roedd yr adolygwyr yn gallu teimlo'r loes a'r golled yr oedd yn eu teimlo gan nad oedd ei mab gyda hi mwyach.

Nid yw'r teulu wedi derbyn unrhyw gefnogaeth therapiwtig i fynd i'r afael â'u colled hyd yma ac fe rannodd y fam y byddai hyn yn fuddiol i'w cefnogi wrth symud ymlaen.

**Digwyddiad Dysgu**

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 25 Ionawr 2022 drwy lwyfan rhithiol oherwydd cyfyngiadau COVID 19. Hwylusodd Cadeirydd y Panel a dau Adolygydd Annibynnol y diwrnod. Estynnwyd gwahoddiad i Ymarferwyr oedd ynghlwm â'r plentyn a'r teulu'n uniongyrchol i'r Digwyddiad Dysgu, i gefnogi ymarferwyr i ystyried eu cyfranogiad, ymarfer, asesiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Roedd cynrychiolaeth asiantaeth yn y Digwyddiad Dysgu yn cynnwys:

- Addysg

- Iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd y Digwyddiad Dysgu yn amlygu arfer da rhwng yr holl weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r teulu ac roedd yn amlwg bod yr holl weithwyr proffesiynol wedi ceisio ymgysylltu a chefnogi'r teulu. Roedd yr holl weithwyr proffesiynol a oedd yn gweithio gyda'r teulu yn ymarferwyr profiadol ac yn cyfathrebu gyda'u hasiantaethau partner.

Roedd y Digwyddiad Dysgu hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau o ran creu newid ystyrlon ar gyfer y teulu tra'n gweithio drwy gyfyngiadau'r pandemig.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, tynnodd y gweithwyr proffesiynol sylw at feysydd dysgu allweddol a fydd yn cael eu nodi yn yr adroddiad hwn.

## Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

*Nodi bob pwynt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ac amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol*

**Themâu**

**Llais a phrofiad bywyd dyddiol y plentyn**

Yn gadarnhaol, yn ystod y digwyddiad dysgu bu modd i ymarferwyr ddisgrifio'r plentyn, rhannu fod ganddo berthynas agos gyda'i ddau frawd hŷn, a darparu rhywfaint o fanylion am ei ddiddordebau i'r adolygwyr. Rhannwyd yn ystod y digwyddiad dysgu bod y Gwasanaethau Plant wedi ceisio ymgysylltu â'r teulu yn barhaus a thra roedd y Cynllun Gofal a Chefnogaeth ar waith ceisiwyd ymweld un ar ddeg o weithiau er bod nifer o'r rhain yn aflwyddiannus, a dim ond un ymweliad a gafwyd lle siaradwyd â'r plant yn unigol. Ar ôl rhoi'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Tachwedd 2020, er bod asiantaethau'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r pandemig, roedd yr ymweliadau wedi parhau'n unol â'r terfynau amser statudol.

Er y cwblhawyd yr ymweliadau statudol o fewn y terfynau amser, ni welwyd y plentyn neu ni siaradwyd ag ef ar ei ben ei hun; fel y nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019. Yn yr achos hwn, adroddwyd y cynhaliwyd ymweliadau yn unol â chanllawiau mesurau brys dros dro'r awdurdod lleol mewn ymateb i bandemig COVID 19. Gan ddilyn y canllawiau hyn roedd yr ymweliadau ar ffurf ymweliadau ar stepen drws, lle gwelwyd yr holl blant gyda'i gilydd ac yn sydyn iawn drwy'r drws.

Gan fod yn rhaid i'r ymarferydd aros y tu allan i'r eiddo a gan nad oedd yn dymuno torri cyfrinachedd y teulu (er enghraifft pe bai teulu cyfagos yn clywed eu sgyrsiau) roedd yr ymweliadau yn rhai byr ac ni siaradwyd â phob plentyn yn unigol.
Gan nad oedd y plant mewn lleoliad addysgol yn ystod y cyfnod clo a'u diffyg presenoldeb pan ail agorwyd yr ysgol, roedd yn peri rhwystr i'r Gwasanaethau Plant

a gweithwyr proffesiynol eraill i allu siarad yn unigol gyda'r plant ac yn cyfyngu'r cyfle i ddatblygu perthnasoedd.

Gwnaed sawl ymgais i nodi safbwyntiau'r plentyn ar gyfer y Gynhadledd Amddiffyn Plant drwy gynllun cyfaill cynhadledd yr awdurdod lleol, ond roeddent i gyd yn aflwyddiannus gan nad oedd y fam yn sicrhau bod y plentyn ar gael ac yn honni nad oedd y plentyn eisiau siarad â'r cyfaill; ni chadarnhawyd hyn gan y plentyn. Mae'n werth nodi y bu i frodyr a chwiorydd y plentyn ymgysylltu â'r cyfaill ar brydiau.

Rhannodd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn y digwyddiad dysgu eu bod yn teimlo nad oedd yr ymweliadau yn "naturiol" ac yn teimlo bod y plant wedi'u paratoi ar gyfer yr ymweliad ac o bosib bod y rhieni wedi dweud wrthynt beth i'w ddweud.

Byddai'n ymddangos bod sawl ffactor wedi effeithio ar ansawdd yr ymweliadau:

a) Cyfyngiadau gweithio drwy bandemig COVID 19, lle bo cadw pellter cymdeithasol yn hanfodol.
b) Y rhieni yn ofni dal yr afiechyd, y tad yn hŷn ac yn ofalwr i'w fam yng nghyfraith gan olygu nad oeddent yn caniatáu i weithwyr proffesiynol ddod i'r cartref er bod y gweithwyr yn fodlon defnyddio'r holl Gyfarpar Diogelu Personol gofynnol.
c) Y plentyn yn un o grŵp mawr o blant; oll gydag anghenion gwahanol oherwydd yr ystod oedran.
d) Problemau iechyd meddwl y fam a'r fam yn camddefnyddio sylweddau.
e) Cydymffurfiaeth gudd gan y fam.

Mae absenoldeb llais unigol y plentyn yn thema nodedig drwy'r dogfennau amddiffyn plant a adolygwyd. Gan eithrio'r pryderon mewn perthynas â phresenoldeb yn yr ysgol nid oes unrhyw gyfeiriad at brofiad y plentyn o fywyd dyddiol ac nid oes tystiolaeth o nodi llais y plentyn. Dylid cydnabod fodd bynnag bod y wybodaeth a rannwyd gan yr ysgol yn ystod y cyfarfodydd Amddiffyn Plant yn darparu rhywfaint o fewnwelediad i bersonoliaeth y plentyn a'i edrychiad ond nid yw'n ymddangos fel bod hyn wedi'i ystyried a'i drafod yn benodol yn ystod y grŵp craidd a chyfarfodydd cynhadledd Amddiffyn Plant.

Mae hyn yn thema a nodir yn aml mewn Adolygiadau Ymarfer Plant ar draws Cymru a Lloegr. Er bod fframweithiau deddfwriaethol a pholisi yn nodi bod llais y plentyn yn hollbwysig, mae cymhwyso hyn mewn ymarfer wedi bod yn destun sawl trafodaeth. Roedd ymchwil a wnaed yn yr Alban ar ddogfennaeth amddiffyn plant a chynadleddau achos yn nodi bod gweithwyr proffesiynol yn hidlo a dehongli safbwynt y plentyn yn hytrach na'i gyflwyno'n uniongyrchol (Bruce, 2014). Yn ei hadolygiad o amddiffyn plant yn Lloegr, pwysleisiodd yr Athro Eileen Munro fod plant a phobl ifanc yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am eu bywydau a'r effaith y mae unrhyw broblemau yn eu cael arnynt o fewn diwylliant a gwerthoedd penodol eu teulu. Felly mae'n ddryslyd bod y dystiolaeth yn dangos nad yw plant yn cael eu cynnwys yn briodol mewn gwaith amddiffyn plant ([10], t.25).

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu mewnwelediad a dealltwriaeth o brofiad bywyd dyddiol y plentyn a chlywed eu llais a phwysleisio ei bod yn hanfodol bod ymarferwyr yn ymgysylltu â phob plentyn yn y teulu sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant i nodi a yw'r cynllun yn gwella ansawdd eu bywydau a'u diogelu rhag niwed. Mae'r Gweithdrefnau'n pwysleisio 'gweld' y plentyn fel mwy na dim ond eu gweld yn gorfforol, mae'n golygu ymgysylltu â'r plentyn i ddeall sut beth yw eu bywyd, nodi eu dymuniadau a'u teimladau, eu galluogi i gyfathrebu mewn modd sy'n gyfforddus iddynt, er mwyn deall y byd o safbwynt y plentyn.

**Grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd**

Nodwedd mewn sawl Adolygiad Achos Difrifol / Ymarfer Plant yw pryderon o ran teuluoedd mwy (gyda phedwar neu fwy o frodyr a chwiorydd) o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r NSPCC yn nodi bod hyn yn fwy amlwg gyda phlant sydd â Chynllun Amddiffyn Plant oherwydd esgeulustod lle bo bron i un o bob pum teulu yn deuluoedd mawr (NSPCC 2013).

Mae Horwath & Tarr (2015) yn nodi bod Gweithwyr Cymdeithasol yn ei gweld yn anodd canolbwyntio ar blant unigol sy'n aelodau o grwpiau mawr o blant. Gall fod yn heriol ar gyfer y teulu a'r ymarferwyr ac felly mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 yn awgrymu o ran Cynadleddau Amddiffyn Plant, y dylai aelodau'r gynhadledd allu ystyried anghenion pob plentyn mewn grŵp mawr o frodyr a chwiorydd, ac y dylid ystyried cynnal dwy gynhadledd i sicrhau y rhoddir digon o amser i bob plentyn unigol. Ni wnaed hyn yn achos teulu'r plentyn dan sylw.

Efallai y byddai mabwysiadu'r fformat hwn ar gyfer cynadleddau wedi caniatáu mwy o drafodaeth o ran anghenion unigol pob plentyn. Mae Horwath & Tarr (2015) yn cynghori pan fydd plant o dan gategori 'plentyn wedi'i esgeuluso' bod blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau yn canolbwyntio ar broblemau ac ymddygiad y rhieni ac yn llai tebygol y bydd y plant unigol yn cael eu harchwilio a'u hystyried yn briodol. Mae Horwath & Tarr (2015) yn awgrymu y gallai hyn egluro pam fod cynlluniau amddiffyn plant yn aml yn cynnwys camau cyffredinol ar gyfer rhieni lle y mesurir llwyddiant drwy gwblhau tasgau.

Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, mae adolygiad o ddogfennaeth gofal a chefnogaeth ac Amddiffyn Plant allweddol yn dangos fod proffil a dealltwriaeth o'r plentyn yn gyfyngedig a'u bod yn ymddangos ar goll ymysg pryderon ehangach am y brodyr a'r chwiorydd a'r pryderon am y fam. Yn ystod y digwyddiad dysgu disgrifiodd staff gofal cymdeithasol y broses o gofnodi achosion mewn perthynas â'r plentyn arweiniol ac yn yr achos hwn y plentyn arweiniol oedd brawd hŷn. O ganlyniad, canolbwyntiwyd ar y plentyn hŷn yn benodol mewn perthynas ag ymyrraeth wedi'i dargedu ar eu cyfer a'r fam o ran ei gallu i fagu plant. Er y dylid cydnabod bod pryderon yn ymwneud â phlant hŷn yn y teulu yn cael eu nodi a'u cofnodi mewn asesiadau ac mewn cynlluniau gofal a chefnogaeth a chynlluniau amddiffyn gofal a

chefnogaeth nid oes cyfeiriad na chanolbwynt ar y plentyn sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn.

## Cyfathrebu a Dogfennaeth Aml-asiantaeth

Mae'r llinell amser yn dangos cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr rhwng yr holl asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r teulu. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Nyrs ysgol yn cysylltu â'r gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd ac addysg, gan fod gan un o'r plant iau lau pen a phresenoldeb y plant yn yr ysgol.
- Nyrs ysgol yn cysylltu â'r deintydd cymunedol am un o'r plant iau a oedd angen tynnu pedwar dant ar ddeg, gyda'r nyrs ysgol yn cynghori'r deintydd i roi gwybod i'r Gwasanaethau Plant.
- Y nyrs ysgol yn darparu adroddiad ar gyfer Cyfarfod Strategol a gynhaliwyd o dan Weithdrefn Diogelu Cymru i sicrhau bod gwybodaeth nyrsio ysgol yn cael ei ystyried wrth ystyried a oedd y plant yn wynebu perygl parhaus o niwed sylweddol.
- Roedd y gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd yn rhagweithiol yn ceisio ymgysylltu â'r teulu. Cynhaliwyd sawl ymweliad i'r cartref ac fe geisiwyd cefnogi'r teulu mewn meysydd eraill, yn hytrach na chanolbwyntio ar iechyd y plentyn yn unig e.e. darparodd yr Ymwelydd Iechyd fanylion cymorth tai i'r fam oherwydd bod elfennau yn y cartref a oedd angen eu gwella.
- Yr Ymwelydd Iechyd yn cysylltu â'r Meddyg Teulu a'r Gwasanaethau Plant i rannu gwybodaeth / pryderon.
- Yr Ymwelydd Iechyd yn mynychu Cyfarfod Strategaeth a gynhaliwyd o dan Weithdrefn Diogelu Cymru i sicrhau bod y Cyfarfod Strategaeth yn fforwm aml-asiantaeth sy'n gwneud penderfyniadau.
- Yr ysgol yn ceisio cyfathrebu â'r teulu mewn sawl ffordd, gan gynnwys sawl ymgais i gysylltu â'r teulu dros y ffôn, llythyrau a chynnig cyfarfodydd gyda'r rhieni. Hefyd fe geisiodd yr ysgol gynnal gwiriadau lles gyda'r plant yn ystod y cyfnod clo, ond yn aml roedd y fam yn gwrthod / atal yr ymweliadau.
- Yr ysgol yn cysylltu gyda'r asiantaethau eraill a chyfeirio un o'r plant at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc am gefnogaeth ychwanegol.
- Defnyddiwyd cronfeydd data'r ysgol ar gyfer cofnodi pryderon yn effeithiol gyda chryn dipyn o wybodaeth wedi'i gofnodi. Hefyd, roedd y Gwasanaeth Lles Addysg yn cadw cofnod manwl ac wedi'i ddiweddaru o'r holl gyswllt gyda'r teulu, gwnaed galwadau ffôn, anfonwyd llythyrau ac fe drefnwyd cyfarfodydd. Darparwyd cerdyn bws i un o'r plant hŷn i fynd i'r afael â phrydlondeb. Pan oedd gan y Swyddog Lles Addysg bryderon fod y fam yn swnio'n gysglyd dros y ffôn, gwnaed cyswllt gyda'r Gwasanaethau Plant i rannu eu pryderon.
- Darparodd yr Heddlu adroddiad manwl ar gyfer y gynhadledd Amddiffyn Plant a oedd yn adlewyrchu eu cysylltiad blaenorol wrth ddadansoddi risg y niwed

i'r plant. Mynegodd yr heddlu eu safbwyntiau'n glir o fewn y gynhadledd Amddiffyn Plant gychwynnol a'i gwneud yn glir eu bod yn teimlo bod angen atgyfeirio'r achos at yr uwch reolwyr oherwydd bod y plant wedi'u rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am yr eildro. Yn ystod y digwyddiad dysgu tynnwyd sylw nad oeddent yn credu bod hyn wedi digwydd ond disgrifiodd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol y broses ar gyfer diwallu'r trothwy i atgyfeirio'r achos ymhellach a pham na atgyfeiriwyd yr achos ymhellach.

- Y Gwasanaethau Plant yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu gyda'r holl asiantaethau partner a bod gan bawb gopi o'r Rhestr o Ddisgwyliadau oedd ar waith ar gyfer un o'r plant hŷn. Cynhaliwyd cyfarfodydd Gofal a Chefnogaeth gan geisio cefnogi'r teulu yn wirfoddol cyn eu cofrestru. Defnyddiwyd offer yn seiliedig ar dystiolaeth gan y gweithiwr cymdeithasol i hysbysu ymarfer e.e. offeryn cyflwr y cartref, asesiad Risg 2. Roedd tystiolaeth o Grwpiau Craidd rheolaidd gan sicrhau y rhennir gwybodaeth yn rheolaidd. Roedd tystiolaeth o ddulliau creadigol i geisio cyfathrebu â'r plant; ar un achlysur roedd gweithiwr cymdeithasol wedi dod â Ciwb Rubik i'r plentyn gan ei fod wedi dangos diddordeb ynddynt.

Mae'n briodol, fodd bynnag, arsylwi mewn cyfarfodydd fel Cynadleddau Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd roedd pob asiantaeth yn cadw cofnod eu hunain o'r cyfarfod, gan arwain at anghysondeb o ran y cofnodion. Er enghraifft, roedd nodiadau'r grŵp craidd ym mis Mawrth 2021 a gofnodwyd gan yr Adran Addysg yn nodi fod gan y fam lygad ddu yn y cyfarfod ond ni chofnodwyd y wybodaeth yng nghofnodion Grŵp Craidd y Gwasanaethau Plant, sy'n arwyddocaol o ystyried y pryderon hysbys o ran tensiwn ym mherthynas y fam a'r tad.

O fewn y llinell amser roedd arwyddion pellach bod anghysondebau yn y dogfennau. Er enghraifft, roedd tri chofnod yn llinell amser y Gwasanaethau Plant ar yr un dyddiad mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed o ran 'atgyfeiriad cyfunol oherwydd gofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Addysg' lle bo un cofnod yn nodi 'Dim camau pellach', un arall yn nodi 'wedi'i gau', a'r trydydd yn nodi 'Achos wedi'i ddyrannu'.

Roedd hefyd yn amlwg o'r llinell amser ac o gofnodion y Gynhadledd Amddiffyn Plant bod rhywfaint o wybodaeth allweddol am ymddygiad y plentyn yn yr ysgol ar goll o'r gynhadledd gychwynnol. Roedd yr ysgol wedi cofnodi sawl digwyddiad yn y 12 mis hyd at y gynhadledd lle bo'r plentyn wedi amharu ar y dosbarth, nifer o achlysuron lle bo'r plentyn wedi anafu disgyblion eraill a chwffio gyda chyfoedion. Ni chyflwynwyd y wybodaeth yn y gynhadledd gychwynnol gan yr Adran Addysg ac fe nodwyd yn y gynhadledd bod "ymddygiad y plentyn yn dda a gall ddilyn rheolau….". Gall fod ychydig yn wirion ond nid yw'n peri pryder."

Yn ystod y digwyddiad dysgu, fe nododd y gweithwyr proffesiynol allanol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol bod gofyn iddynt wneud eu nodiadau eu hunain gan fod oedi o ran derbyn cofnodion y cyfarfodydd grŵp craidd a'r cynadleddau Amddiffyn Plant, gan ddarparu enghreifftiau o oedi o chwe wythnos. Mae

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn nodi y “dylai cadeirydd y gynhadledd gytuno ar y cofnodion gan gynnwys y rhai a ddylai dderbyn copi llawn neu rannol cyn eu dosbarthu. Dylid dosbarthu crynodeb a chynllun amlinellol o fewn 5 diwrnod gwaith neu erbyn cyfarfod cyntaf y grŵp craidd.

Dylid anfon copi cyn gynted â phosibl ar ôl y gynhadledd i’r rhai a oedd yn bresennol neu a gafodd wahoddiad i fynychu, gan gynnwys aelodau’r teulu, heblaw am unrhyw ran o’r gynhadledd y cawsant eu gwahardd ohoni. Byddai arfer da yn awgrymu dosbarthu ddim hwyrach na 20 diwrnod gwaith”

**Cydymffurfiaeth Gudd / Diffyg ymgysylltiad rhieni**

Mae Cydymffurfiaeth Gudd yn golygu bod rhieni a gofalwyr yn ymddangos fel eu bod yn cydymffurfio â gweithwyr proffesiynol er mwyn lliniaru pryderon ac atal ymgysylltiad proffesiynol, mae’n nodwedd gyffredin o fewn Adolygiadau Ymarfer Plant Gogledd Cymru (Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru 2020).

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru’n nodi’r canlynol fel dangosyddion o gydymffurfiaeth gudd;

- Diffyg cynnydd mesuradwy mewn adolygiadau, er ei bod yn ymddangos bod ymdrech a chydweithrediad gan rieni;
- Rhieni yn cytuno i newid ond nid ydynt yn cwblhau’r camau a gytunwyd i'w gyflawni;
- Colli apwyntiadau yn aml;
- Ceisio lleihau pryderon gweithwyr proffesiynol;

Roedd y rhain i gyd yn bresennol o fewn y llinell amser a’r dogfennau ategol.

Roedd tystiolaeth bod y fam wedi mynegi ei bod angen cefnogaeth yn ystod y sgyrsiau gyda gweithwyr proffesiynol ond yna’n gwrthod atgyfeiriadau i’r gwasanaethau priodol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Roedd cyflwr y cartref angen ei atgyweirio a nododd yr offeryn Amodau’r Cartref bod llanast a sbwriel yn yr ardd gyda rhestr o ddisgwyliadau ym mis Ebrill 2020 yn nodi bod angen mynd i’r afael â hyn, ond gwrthododd y rhieni atgyfeiriad i Ofal a Thrwsio i dderbyn cefnogaeth gyda hyn.
- Rhoddodd y fam ganiatâd ar gyfer atgyfeiriad i CAMHS ar gyfer y plentyn hŷn ond ni ymgysylltodd ag unrhyw waith dilynol ac felly cafodd yr atgyfeiriad ei gau.
- Er y cytunwyd ar atgyfeiriad i’r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau a’i gynnwys yn y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth, fe wrthododd y fam y gwasanaeth yn ddiweddarach.
- Bu i weithwyr iechyd proffesiynol atgoffa’r fam sawl gwaith o ran pwysigrwydd olrhain adolygiad pediatrig ar gyfer un o’r plant iau, adolygiad asthma ar gyfer

plentyn arall ac apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu i adolygu anawsterau iechyd meddwl y fam, a bu iddi barhau i fethu'r rhain.
- Trefnwyd sawl Cyfarfod Adolygu Strategaeth Presenoldeb gan yr Adran Addysg a bu i'r rhieni eu methu.
- Cynigiwyd eiriolydd i'r fam ond fe wrthododd y cynnig.

Er hyn roedd yn amlwg yn y digwyddiad dysgu bod y gweithwyr proffesiynol wedi herio'r rhieni mewn perthynas â'r pryderon o ran effaith iechyd meddwl y fam ar ei gallu i fagu plant a diwallu anghenion y plant; y fam yn camddefnyddio sylweddau; presenoldeb y plant yn yr ysgol ac nad oedd y rhieni wedi llofnodi'r rhestr o ddisgwyliadau.

Roedd ymgysylltiad gyda'r broses Amddiffyn Plant yn isel hefyd. Ni fynychodd yr un o'r rhieni'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol ym mis Tachwedd 2020, er fe wnaeth y fam geisio ffonio pan oedd y gynhadledd ar ei chanol ond oherwydd problem gyda'r llinell ffôn fe'i cynghorwyd i adael ac y byddai'r Gweithiwr Cymdeithasol yn ei diweddaru ar ôl y cyfarfod. Fe fynychodd y fam y gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ym mis Chwefror 2021, ond dim ond un o'r grwpiau craidd y bu iddi fynychu (o'r 4 cyfarfod grŵp craidd yr oedd yr adolygwyr wedi'u harsylwi). Ni fynychodd y tad y Gynhadledd Gychwynnol na'r Gynhadledd Adolygu, na'r 4 cyfarfod Grŵp Craidd. Ond fe rannodd yr ymarferwyr gofal cymdeithasol yn y digwyddiad dysgu eu bod yn rhagweithiol o ran sicrhau bod y rhieni yn derbyn gwybodaeth am yr holl gyfarfodydd, yn rhannu'r holl waith papur cyn y cyfarfod i sicrhau y gallant gyfrannu at drafodaethau ac i sicrhau eu bod yn deall unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd a'r disgwyliadau ganddynt fel rhieni.

Tynnwyd sylw at sgiliau llythrennedd y fam yn ystod yr adolygiad. Roedd y fam wedi egluro i'r Gweithiwr Cymdeithasol ei bod yn cael anawsterau gyda darllen ac ysgrifennu a'i bod hi a'i phartner yn cael anhawster gyda thechnoleg. Rhannwyd hyn yn y grŵp craidd ac fe gytunwyd y byddai'r holl adroddiadau yn cael eu rhannu ar lafar. Rhannodd yr ymarferwyr o'r holl asiantaethau eu bod hwythau yn rhagweithiol yn cysylltu â'r rhieni drwy alwadau ffôn a negeseuon testun. Rhannodd y Meddyg Teulu yn ystod y digwyddiad dysgu nad oedd yn ymwybodol o hyn a'i bod yn sylweddoli bod gohebiaeth gan y Feddygfa yn aml ar ffurf llythyr, ond darparodd gweithwyr proffesiynol eraill (yn enwedig y rhai o faes iechyd) enghreifftiau o wneud cyswllt rheolaidd gyda'r fam i'w hatgoffa o'r apwyntiadau a gynlluniwyd.

## Ymgysylltu gyda'r tad

Mae'r NSPCC (2015) yn nodi bod gan ddynion rôl bwysig ym mywydau eu plant ac mae ganddynt ddylanwad cryf ar y plant y maent yn gofalu amdanynt. Er hyn, gallan nhw gael eu hanwybyddu gan weithwyr proffesiynol sydd weithiau'n canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ansawdd y gofal y mae plant yn ei gael gan famau a gofalwyr sy'n ferched. Canfu eu dadansoddiad o adolygiadau Achosion Difrifol fod tadau sy'n gallu meithrin ac amddiffyn y plentyn yn aml yn cael eu hanwybyddu gan weithwyr proffesiynol. Er bod adolygiad yr NSPCC yn ystyried y

tadau sydd wedi ymddieithrio, mae egwyddorion ymgysylltu â thadau yn y broses Amddiffyn Plant hefyd yn berthnasol i'r tadau sy'n aros yn y cartref ond yn gadael i'r fam fynychu'r holl gyfarfodydd statudol.

Nododd yr adolygiad nad oedd y tad wedi mynychu nifer o gyfarfodydd amddiffyn plant ynglŷn â'i blentyn a nodwyd pryder ychwanegol gan y gweithwyr proffesiynol efallai bod y fam yn cuddio rhywfaint o wybodaeth oddi wrtho.

Cyn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol roedd y fam wedi gofyn ei bod yn trafod adroddiadau'r Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer y gynhadledd ar wahân heb y tad, gan fod gwybodaeth am ei chamddefnydd o sylweddau yn yr adroddiad, nad oedd y tad yn ymwybodol ohono. Yng nghofnodion y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol, mae'n nodi bod y tad wedi colli aelod o'r teulu oherwydd sylweddau ac na fyddai'n goddef unrhyw ddefnydd o gyffuriau. Roedd gwybodaeth hanesyddol hefyd mewn perthynas â chamdriniaeth rywiol yr oedd y fam wedi'i ddioddef ac yn ystod y digwyddiad dysgu fe rannwyd pan drafodwyd hyn yn ystod y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn 2018 (roedd y tad yn bresennol ond nid oedd y fam yno) roedd y tad yn ymddangos wedi'i synnu gan y wybodaeth a rannwyd.

Mae cofnodion y grŵp craidd cyntaf yn nodi nad oedd y fam yn agored a gonest gyda'r tad gan nad oedd yn ymwybodol bod y plant ar y gofrestr Amddiffyn Plant a bod y fam eisiau cuddio gwybodaeth oddi wrth y tad gan ei bod yn ofni y byddai'n dod â'r berthynas i ben. Rhannwyd hefyd yn y digwyddiad dysgu y credwyd bod y fam wedi llofnodi'r Rhestr o Ddisgwyliadau ar ran y tad, gan ei fod wedi'i adael gyda'r fam dros nos ac ar ôl ei ddychwelyd roedd yr un llawysgrifen ar gyfer y ddau lofnod.

Gyda'r gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol bod posibilrwydd bod y fam yn cuddio gwybodaeth oddi wrth y tad yn fwriadol, ac y cofnodwyd bod y tad yn ymgysylltu'n well na'r fam, cododd dadansoddiad asiantaeth y Bwrdd Iechyd y cwestiwn pe bai gweithwyr proffesiynol wedi ceisio ymgysylltu mwy â'r tad a allai hyn fod wedi arwain at dderbyn mwy o wasanaethau cefnogi. Yn ystod y digwyddiad dysgu fe drafodwyd hyn ac roedd sawl enghraifft o weithwyr proffesiynol yn ymgysylltu â'r tad, gan gynnwys: cyfarfodydd cyn ac ar ôl cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd; yn ystod ymweliadau statudol a sgyrsiau ffôn (yn enwedig gyda'r ysgol). Roedd nifer o weithwyr proffesiynol hefyd yn adrodd am sgyrsiau gyda'r tad o ran ffiniau rhianta gyda'r plant ac fe nodwyd ei fod wedi rhannu ei rwystredigaeth mai ef oedd yr un oedd yn ceisio gweithredu ffiniau ond fod gan y fam ymagwedd ysgafnach tuag at fagu plant a'i fod yn teimlo ei fod yn cael ei ystyried yn rhy gadarn.

### Esgeulustod ac amodau'r cartref

Esgeulustod yw methiant parhaus i fodloni anghenion plentyn. Nid yw'n un digwyddiad ond yn hytrach yn gyfuniad o bethau dros amser (BDPGC 2021).

Mae'r NSPCC (2020) yn egluro y gall esgeulustod fod yn nifer o bethau gwahanol, sy'n golygu ei fod yn anodd ei ganfod. Maent yn nodi pedwar prif gategori o esgeulustod i gynorthwyo ymarferwyr:

- Esgeulustod corfforol; methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol y plentyn, megis bwyd, dillad neu loches, neu nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n briodol neu eu cadw'n ddiogel.
- Esgeulustod addysgol; lle nad yw'r rhiant yn sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg.
- Esgeulustod emosiynol; pan nad yw plentyn yn derbyn yr anogaeth a'r ysgogiad sydd eu hangen arnynt. Gallai hyn fod drwy anwybyddu, bychanu, bygwth neu eu hynysu.
- Esgeulustod meddygol; pan nad yw plentyn yn derbyn y gofal iechyd priodol, mae hyn yn cynnwys gofal deintyddol a gwrthod neu anwybyddu argymhellion meddygol.

Tystiolaethwyd y diffiniadau hyn o esgeulustod sawl gwaith mewn perthynas â'r plentyn a'r teulu gan gynnwys:

- Esgeulustod corfforol; cafodd y plentyn ac un o'r plant eraill eu dal yn cymryd bwyd oddi ar blant eraill ac athrawon yn yr ysgol, gan awgrymu eu bod yn llwglyd. Nodwyd amodau gwael y cartref sawl gwaith yn y llinell amser, ar un achlysur cafodd ei ddisgrifio fel ofnadwy ac ar achlysur arall nodwyd bod y waliau a'r ystafell fyw mewn cyflwr gwael gyda'r holl arwynebau yn fudr, nad oedd modd mynd at y popty oherwydd bod llawer o 'stwff' ac eitemau yn y ffordd.
- Esgeulustod addysgol; roedd presenoldeb y plentyn wedi gostwng i 23% gyda'i frodyr a'i chwiorydd â phresenoldeb isel gan arwain at gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig i'r rhieni ond ni chafodd ei weithredu.
- Esgeulustod meddygol / iechyd; roedd yn rhaid i un o'r plant iau gael tynnu 14 o ddannedd, bu i'r rhieni fethu'r apwyntiadau deintyddol sawl gwaith. Rhieni hefyd wedi methu â sicrhau bod un o'r plant eraill yn derbyn adolygiad Asthma gan arwain at orfod galw'r gwasanaethau brys oherwydd problemau anadlol. Roedd y plant hefyd yn goddef o lau pen yn barhaus.

Canfu'r adolygiad hefyd nad oedd llawer o dystiolaeth nac ystyriaeth o ran effaith yr esgeulustod ar iechyd, datblygiad, ymddygiad a lles emosiynol y plentyn. Efallai na chafodd y plentyn lais unigol ond roedd y wybodaeth a oedd gan yr asiantaethau amrywiol yn darparu mewnwelediad i brofiadau bywyd y plentyn. Mae'r llinell amser yn nodi cyfnodau o esgeulustod o ran magu plant, ond ni archwiliwyd na chofnodwyd effaith hyn ar y plentyn mewn unrhyw ddogfennau a welwyd gan yr adolygwyr.

Eto, nid yw hyn yn thema anghyffredin o fewn gwaith amddiffyn plant, fel y canfu ymchwil gan Ofal Cymunedol a'r NSPCC fod gan weithwyr cymdeithasol ddiffyg hyder o ran nodi ac ymateb i esgeulustod plant. Dengys ymchwil nad yw esgeulustod plant yn flaenoriaeth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gyda 60% yn nodi eu bod yn teimlo pwysau i israddio achosion esgeulustod (Gofal Cymunedol 2022).

Dylid nodi nad oedd tystiolaeth i awgrymu unrhyw israddio yn yr achos hwn, ond mae ymchwil yn darparu rhywfaint o fewnwelediad i sut mae asiantaethau statudol yn ystyried achosion o esgeulustod gyda llwyth achosion trwm.

**Chwilfrydedd proffesiynol**

O fewn y llinell amser nododd yr adolygwyr sawl cyfle a fethwyd o ran chwilfrydedd proffesiynol ac ymchwiliad pellach gan weithwyr proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Digwyddiad lle bo'r plentyn a'i frodyr / chwiorydd yn cymryd byrbrydau oddi ar blant eraill yn yr ysgol. Byddai hyn yn awgrymu bod y plant yn llwglyd, gan arwain at y cwestiwn a oeddent yn cael eu bwydo'n briodol yn y cartref. Roedd cyfle yma i ofyn i'r plentyn pam eu bod angen byrbrydau yn yr ysgol, a oeddent wedi cael brecwast y bore hwnnw neu wedi cael te'r noson cynt.
- Dechreuodd y plentyn ac un o'r plant eraill fwlio yn yr ysgol. Mae'r newid mewn ymddygiad yn arwain at y cwestiwn beth oedd wedi newid ar gyfer y plant er mwyn i'w hymddygiad newid. Roedd cyfle yma i ofyn i'r plentyn beth oedd yn digwydd a pham ei fod yn brifo disgyblion eraill.
- Y plentyn hŷn yn syrthio i gysgu yn y dosbarth ac yn nodi ei fod wedi bod yn gwarchod y plant iau gan nad oedd y fam yn ymddiried yn y tad. Cwestiwn o ran pam nad oedd y fam yn ymddiried yn y tad i ofalu am y plant ac effaith y cyfrifoldebau gofalu ar y plentyn hŷn ond hefyd ar y plant eraill.
- Yn ystod un ymweliad i'r cartref gan yr Heddlu nodwyd fod y fam yn ymddangos fel ei bod yn mynd i'w chragen pan ddaeth y tad adref. Roedd hyn yn codi'r cwestiwn a oedd y fam ofn y tad neu a oedd gwybodaeth yr oedd y fam yn ei gadw oddi wrth y tad.
- Roedd dau achlysur lle bo'r plentyn hŷn wedi'i anafu, un lle y bu iddo anafu ei asen ac y llall yn anaf i'w law. Ni archwiliwyd sut y digwyddodd yr anafiadau hyn ac nid oes cyfeiriad atynt yn y cofnodion iechyd.
- Roedd y gymuned leol yn pryderu bod y plentyn a phlentyn arall o'r teulu yn anafu anifeiliaid yn y goedwig. Byddai trafodaethau pellach gyda'r plentyn yn darparu mwy o ddealltwriaeth a oedd unrhyw fwriad neu reswm dros anafu.
- Roedd sawl cyfeiriad yn y llinell amser at ddefnydd y fam o gyffuriau, bod cymydog wedi cyfeirio at y fam fel "smack head", y fam yn cyfaddef iddi gymryd "wizz", a bod nodyn yn y Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol bod y fam yn rhoi meddyginiaeth i'w hunan ar ffurf amffetaminau. Fodd bynnag, nid oes darlun clir o gamddefnydd sylweddau gan y fam, o ran faint o wahanol sylweddau, pa mor aml yr oedd yn eu defnyddio a sut yr oedd hyn yn effeithio ar ei gweithrediadau o ddydd i ddydd, ei hymddygiad a'i gallu i fagu plant.

**Asiantaethau'n cyflawni dyletswyddau statudol**

O dan weithdrefn 'Ni ddaethpwyd â'r plentyn' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr roedd un ar ddeg cofnod 'ni ddaethpwyd â'r plentyn' rhwng y cyfnod lle

tynnwyd y plant oddi ar y gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Mai 2019 a'u rhoi yn ôl ar y gofrestr Amddiffyn Plant ym mis Tachwedd 2020. Gyda thri chofnod pellach o 'Ni ddaethpwyd â'r plentyn' tra ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Mae gweithdrefn y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio Ni Ddaethpwyd â'r Plentyn, y Weithdrefn Safonol ar gyfer monitro peidio dod â phlant i apwyntiadau (2015), yn broses ddiogelu i fonitro'r holl blant sy'n methu apwyntiadau a goruchwyliaeth feddygol oherwydd nad yw'r rhieni yn dod â nhw. Mae'n nodi y gall methiant i fynychu apwyntiadau iechyd fod yn ddangosydd o natur ddiamddiffyn y teulu, gan olygu bod lles y plentyn yn gallu bod mewn perygl. Mae'r weithdrefn yn nodi os yw ail apwyntiad yn cael ei gytuno ar lafar ond nad ydynt yn dod i hwnnw chwaith, dylai'r staff ystyried cysylltu ag Arbenigwyr Diogelu i dderbyn cyngor. Nododd BIPBC yn eu dadansoddiad asiantaeth na ddilynwyd y weithdrefn gan rai gwasanaethau mewnol a phe baent wedi'i dilyn yna byddai'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r sefyllfa ynghynt. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r weithdrefn yn cael ei hadolygu.

Mae Polisi Presenoldeb Ysgolion, a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2019, yn nodi bod dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo diogelwch a lles yr holl fyfyrwyr; fodd bynnag, mae hyn yn dod yn anodd pan nad yw myfyrwyr yn mynd i'r ysgol. Mae'r polisi yn nodi bod Rheoliadau Addysg (Rhybuddion Cosb) (Cymru) 2013 yn rhoi grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig i'r rhieni; yr Awdurdod Lleol sy'n cyflwyno'r rhain, nid yr ysgol, a dim ond os ceir dros 20 sesiwn o absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor y gellir eu cyflwyno. Ym mis Mawrth 2020 fe awdurdododd yr Adran Addysg yn yr Awdurdod Lleol bod Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei anfon at y rhieni mewn ymateb i ddiffyg presenoldeb y plentyn a chyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig mewn perthynas â diffyg presenoldeb plentyn arall hefyd. Ond rhoddwyd cyfarwyddyd yn fuan wedi hynny i gau'r ysgol oherwydd pandemig COVID 19 ac felly nid oedd modd cyflawni unrhyw newid sylweddol o ran presenoldeb. Ar ôl ail-agor yr ysgolion ym mis Medi 2020 roedd presenoldeb y plentyn wedi gostwng i 32.5%, gan ostwng ymhellach i 23% erbyn dechrau'r tymor ar ôl cyfnod y Nadolig 2020; erbyn hyn roedd yr ysgol wedi dechrau ail gyfnod clo. Er y defnyddiwyd sawl ymgais a strategaeth i geisio gwella presenoldeb y plentyn yn yr ysgol (a'i frodyr a'i chwiorydd) teimlir bod yr aflonyddwch i'w haddysg drwy'r cyfnodau clo cenedlaethol wedi rhwystro unrhyw gamau pellach gan yr Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â diffyg presenoldeb.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) dylid datblygu Cynllun Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth, sy'n cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethau Plant, mewn dau gam; llunio cynllun amlinellol yn y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol a'i ddatblygu i gynllun manwl yng nghyfarfod cyntaf y grŵp craidd. Yn ogystal â hyn, dylid cael cynllun ar gyfer pob plentyn yn y teulu sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion unigol. Ond, yr arfer gyffredin o fewn yr Awdurdod Lleol yw os yw'r grŵp craidd yn teimlo bod y cynllun amlinellol yn ddigonol mae'n cael ei gytuno fel y cynllun terfynol.

Nid oedd tystiolaeth mewn unrhyw gofnod a welodd yr adolygwyr, bod Cynllun Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth manwl na chynllun unigol ar gyfer pob plentyn gan fod y camau a nodwyd wedi'u cynnwys yn y gynhadledd Amddiffyn Plant a chofnodion y grŵp craidd ac yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod.

Wrth adolygu'r camau gweithredu a nodwyd fel rhan o gynllun ar gyfer y teulu, mae'n amlwg eu bod yn canolbwyntio fwyaf ar y plant hŷn ac ar y pryderon yn ymwneud â'r fam yn benodol ac yn canolbwyntio ar wasanaethau heb unrhyw gyfeiriad at anghenion gofal a chefnogaeth penodol, risgiau na chanlyniadau ar gyfer y plentyn. Yn ystod y digwyddiad dysgu fe wnaeth y gweithwyr proffesiynol rannu eu bod yn teimlo bod y trefniadau presennol yn gweithio'n effeithiol gan ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am ba weithredoedd a bod y rhain yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod i fonitro cynnydd. Ond, roedd cytundeb bod angen rhoi mwy o amser i ddatblygu cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth plentyn mewn perthynas â phob plentyn o fewn y cynadleddau Amddiffyn Plant ac y dylid datblygu hyn fel grŵp amlasiantaeth a gyda'r teulu, yn hytrach na rhoi cyfrifoldeb i'r Gweithiwr Cymdeithasol i ddatblygu'r cynllun. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn nodi bod gofyn i'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys y rhieni a'r plentyn), baratoi a chynnal cynlluniau amddiffyn gofal a chefnogaeth. Mae cydlynydd y cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth, y cyfeirir atynt hefyd fel y Gweithiwr Cymdeithasol, yn derbyn cyfrifoldeb arweiniol dros y cynllun ar ran yr Awdurdod Lleol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) hefyd yn nodi bod yn rhaid gweld y plentyn o leiaf bob deg diwrnod gwaith ac yn y cartref o leiaf bob pedair wythnos, i sicrhau bod y plentyn yn cael ei weld ar ei ben ei hun lle bynnag bo modd ac fel isafswm dylai hyn ddigwydd bob chwe wythnos. Dylid gweld ystafell wely'r plentyn o leiaf unwaith rhwng bob cynhadledd Amddiffyn Plant. Deallir bod cyfyngiadau pandemig COVID 19 wedi effeithio ar y gallu i ddiwallu'r gofynion hyn a bod yr Awdurdod Lleol wedi gweithredu mesurau dros dro ar gyfer rheoli ymweliadau statudol drwy gydol y pandemig, a oedd yn cynnwys ymagwedd asesu risg i benderfynu pa deuluoedd y byddent yn ceisio cael mynediad i'r cartref teuluol ganddynt. Er y gwnaed penderfyniad cychwynnol i gynnal ymweliadau stepen drws (er mwyn cydymffurfio â rheolau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau COVID) gyda'r plentyn a'r teulu gwnaed penderfyniad i gynnal ymweliadau yn y cartref oherwydd pryderon cynyddol, ond, nodwyd er y defnyddiwyd cyfarpar diogelu personol a mesurau cadw pellter gwrthododd y fam roi mynediad i weithwyr proffesiynol i'r cartref ac yn aml siaradwyd â'r plant ar stepen drws y cartref neu yn yr ardd gyda'r rhieni gyda nhw'n aml.

## Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn hybu'r dysgu o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau yn ogystal â'r canlyniadau gwelliant a ragwelir:*

O ystyried y dystiolaeth a ystyriwyd yn ystod yr adolygiad a'r safbwyntiau a'r dysgu a gyflwynwyd yn ystod y digwyddiad dysgu mae'r canlynol wedi'u nodi fel pwyntiau dysgu allweddol:

- Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal Sgyrsiau Beth sy'n Bwysig gyda phob plentyn yn unigol cyn gynted â phosibl.

- Dylai pob asesiad a wneir gan weithwyr proffesiynol geisio sefydlu a deall beth yw profiad bywyd dyddiol pob plentyn

- Ymholiadau Adran 47;

    - ✓ Dylid dechrau sgwrs beth sy'n bwysig gyda phlant unigol a'r rhieni ar y pwynt hwn
    - ✓ Dylid deall lefel llythrennedd pob rhiant ar y pwynt hwn
    - ✓ Rhannu canlyniad ymholiad Adran 47 gyda'r holl asiantaethau partner.
    - ✓ Sicrhau bod y wybodaeth a gasglwyd yn yr A47 ar gael yn ffeil achos pob plentyn.

- Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth;

    - ✓ Nododd y digwyddiad dysgu y dylid treulio mwy o amser yn datblygu cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth o fewn y gynhadledd amddiffyn plant. Teimlir oherwydd yr amser a dreulir yn trafod y teulu a'r pryderon a nodwyd nad oes llawer o amser i ddatblygu'r cynllun, gan arwain at gynllun Gwasanaethau Plant gan fwyaf, yn hytrach na chynllun amlasiantaeth sy'n cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r teulu.
    - ✓ Ni ddylai'r plentyn arweiniol ddominyddu'r Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth. Byddai cael cynllun unigol ar gyfer pob plentyn yn y teulu yn cefnogi ymarferwyr i ganolbwyntio ar bob plentyn yn unigol.
    - ✓ Ysgrifennu Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth mewn modd sy'n adlewyrchu sgiliau llythrennedd a dealltwriaeth y rhieni.

- Prydlondeb anfon cofnodion i asiantaethau partner;

    - ✓ Rhannu cofnodion grŵp craidd gyda'r asiantaethau partner o fewn pum diwrnod gwaith

- Angen i'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi plant sy'n derbyn cefnogaeth drwy'r gweithdrefnau i fonitro cydymffurfiaeth gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

- Mewn grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd ac mewn teuluoedd cymhleth gyda sawl mater dan sylw mae'n bwysig y cymerir ymagwedd gymesur wrth ddatblygu cynlluniau amddiffyn gofal a chefnogaeth er mwyn rheoli cefnogaeth ac ymyrraeth mewn modd amserol a chydlynol fel nad yw'n llethu'r rhieni a'r teulu gyda disgwyliadau, ymyriadau a gwasanaethau amryfal

yn cael eu darparu ar yr un pryd. Byddai hyn yn caniatáu monitro a mesur effaith ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith ofynnol ar brofiad bywyd dyddiol y plentyn o ran cynorthwyo i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth, rheoli a lliniaru risgiau a galluogi'r plentyn i gyflawni ei ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig iddynt).

- BIPBC i sicrhau bod yr holl wasanaethau mewnol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn dilyn gweithdrefn 'Ni ddaethpwyd â'r Plentyn' yn gyson.

**Casgliad**

Wrth archwilio sut y cyflawnwyd dyletswyddau statudol yr holl asiantaethau perthnasol, roedd nifer o feysydd o ymarfer lle bo pandemig COVID 19 wedi effeithio arnynt. Roedd yr holl ymarferwyr o fewn y digwyddiad dysgu yn derbyn eu bod yn gweithredu o dan amgylchiadau hynod eithriadol o ran cydbwyso diogelu ochr yn ochr â risg COVID 19, er enghraifft roedd ymweliadau i'r teulu yn heriol oherwydd bod yn rhaid cael sgyrsiau ar stepen drws. Nododd y gweithwyr proffesiynol y byddai'n fuddiol cael dulliau amgen o gyfathrebu gyda'r plant, megis iPad neu alwadau fideo er mwyn iddynt weld y teulu ac amodau'r cartref. Ond, ni nodwyd nad oedd mynediad i'r rhyngrwyd yn ddibynadwy bob amser, bod y rhieni yn gyndyn i gael offer cyfrifiadurol rhag ofn i'r plant ei ddifrodi neu ei gamddefnyddio a'r rhieni'n cyfaddef nad oeddent yn hyderus yn defnyddio technoleg.

Wrth ystyried argymhellion mewn perthynas ag ymarfer amddiffyn plant, mae angen ystyried beth sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r canlyniadau a ddymunir. O ran nodi llais y plentyn a phrofiad bywyd fel un maes i'w ddatblygu, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi creu Canllawiau ac Astudiaethau Achos ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol i nodi Profiad Bywyd Dyddiol Plant, Rhieni a Gofalwyr. Argymhellir bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn mabwysiadu'r canllawiau hyn.

Mewn ymateb i nodi esgeulustod fel thema, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi creu taflen Wybodaeth ar Adnabod ac Ymateb i Esgeulustod. Mewn ymateb i gydymffurfiaeth gudd, eto mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi datblygu Canllaw Ymarfer ar gyfer Gweithio gyda Phobl sy'n arddangos Cydymffurfiaeth Gudd. Argymhellir bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn mabwysiadu'r canllawiau hyn.

Mae angen ystyried gwerth ailgynhyrchu beth sy'n bodoli ar hyn o bryd ac mae angen sicrhau bod unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol yn arloesol ac ystyrlon.

Hoffai'r adolygwyr ddiolch i'r holl ymarferwyr a gymerodd ran yn yr adolygiad ac i'w sicrhau nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu neu nodi y byddai modd rhagweld neu atal marwolaeth y plentyn o ganlyniad i archwilio'r holl ddogfennau a gyflwynwyd a'r trafodaethau a'r sylwadau a gafwyd yn ystod y digwyddiad dysgu.

O ystyried y dystiolaeth a ystyriwyd yn ystod yr adolygiad a'r safbwyntiau a'r dysgu a gyflwynwyd yn ystod y digwyddiad dysgu mae'r canlynol wedi'u nodi fel pwyntiau dysgu allweddol:

- Dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal Sgyrsiau Beth sy'n Bwysig gyda phob plentyn yn unigol cyn gynted â phosibl.
- Dylai pob asesiad a wneir gan weithwyr proffesiynol geisio sefydlu a deall beth yw profiad bywyd dyddiol pob plentyn

- Ymholiadau Adran 47;
  - ✓ Dylid dechrau sgwrs beth sy'n bwysig gyda phlant unigol a'r rhieni ar y pwynt hwn
  - ✓ Dylid deall lefel llythrennedd pob rhiant ar y pwynt hwn
  - ✓ Rhannu canlyniad ymholiad Adran 47 gyda'r holl asiantaethau partner.
  - ✓ Sicrhau bod y wybodaeth a gasglwyd yn yr A47 ar gael yn ffeil achos pob plentyn.

- Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth;
  - ✓ Nododd y digwyddiad dysgu y dylid treulio mwy o amser yn datblygu cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth o fewn y gynhadledd amddiffyn plant. Teimlir oherwydd yr amser a dreulir yn trafod y teulu a'r pryderon a nodwyd nad oes llawer o amser i ddatblygu'r cynllun, gan arwain at gynllun Gwasanaethau Plant gan fwyaf, yn hytrach na chynllun amlasiantaeth sy'n cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r teulu.
  - ✓ Ni ddylai'r plentyn arweiniol ddominyddu'r Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth. Byddai cael cynllun unigol ar gyfer pob plentyn yn y teulu yn cefnogi ymarferwyr i ganolbwyntio ar bob plentyn yn unigol.
  - ✓ Ysgrifennu Cynlluniau Amddiffyn Gofal a Chefnogaeth mewn modd sy'n adlewyrchu sgiliau llythrennedd a dealltwriaeth y rhieni.

- Prydlondeb anfon cofnodion i asiantaethau partner;
  - ✓ Rhannu cofnodion grŵp craidd gyda'r asiantaethau partner o fewn pum diwrnod gwaith

- Angen i'r holl asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi'r plant i fonitro cydymffurfiaeth gyda Gweithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn eu cefnogi drwy'r gweithdrefnau.

- Mewn grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd ac mewn teuluoedd cymhleth gyda sawl mater dan sylw mae'n bwysig y cymerir ymagwedd gymesur wrth ddatblygu cynlluniau amddiffyn gofal a chefnogaeth er mwyn rheoli cefnogaeth ac ymyrraeth mewn modd amserol a chydlynol fel nad yw'n llethu'r rhieni a'r teulu gyda disgwyliadau, ymyriadau a gwasanaethau amryfal yn cael eu darparu ar yr un pryd. Byddai hyn yn caniatáu monitro a mesur effaith ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith ofynnol ar brofiad bywyd dyddiol y plentyn o ran cynorthwyo i ddiwallu anghenion gofal a

chefnogaeth, rheoli a lliniaru risgiau a galluogi'r plentyn i gyflawni ei ganlyniadau (yr hyn sy'n bwysig iddynt).

- BIPBC i sicrhau bod yr holl wasanaethau mewnol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn dilyn gweithdrefn 'Ni ddaethpwyd â'r Plentyn' yn gyson.

**Casgliad**

Wrth archwilio sut y cyflawnwyd dyletswyddau statudol yr holl asiantaethau perthnasol, roedd nifer o feysydd o ymarfer lle bo pandemig COVID 19 wedi effeithio arnynt. Roedd yr holl ymarferwyr o fewn y digwyddiad dysgu yn derbyn eu bod yn gweithredu o dan amgylchiadau hynod eithriadol o ran cydbwyso diogelu ochr yn ochr â risg COVID 19, er enghraifft roedd ymweliadau i'r teulu yn heriol oherwydd bod yn rhaid cael sgyrsiau ar stepen drws. Nododd y gweithwyr proffesiynol y byddai'n fuddiol cael dulliau amgen o gyfathrebu gyda'r plant, megis iPad neu alwadau fideo er mwyn iddynt weld y teulu ac amodau'r cartref. Ond, ni nodwyd nad oedd mynediad i'r rhyngrwyd yn ddibynadwy bob amser, bod y rhieni yn gyndyn i gael offer cyfrifiadurol rhag ofn i'r plant ei ddifrodi neu ei gamddefnyddio a'r rhieni'n cyfaddef nad oeddent yn hyderus yn defnyddio technoleg.

Wrth ystyried argymhellion mewn perthynas ag ymarfer amddiffyn plant, mae angen ystyried beth sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r canlyniadau a ddymunir. O ran nodi llais y plentyn a phrofiad bywyd fel un maes i'w ddatblygu, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi creu Canllawiau ac Astudiaethau Achos ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol i nodi Profiad Bywyd Dyddiol Plant, Rhieni a Gofalwyr. Argymhellir bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn mabwysiadu'r canllawiau hyn.

Mewn ymateb i nodi esgeulustod fel thema, mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi creu taflen Wybodaeth ar Adnabod ac Ymateb i Esgeulustod. Mewn ymateb i gydymffurfiaeth gudd, eto mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi datblygu Canllaw Ymarfer ar gyfer Gweithio gyda Phobl sy'n arddangos Cydymffurfiaeth Gudd. Argymhellir bod yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn mabwysiadu'r canllawiau hyn.

Mae angen ystyried gwerth ailgynhyrchu beth sy'n bodoli ar hyn o bryd ac mae angen sicrhau bod unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol yn arloesol ac ystyrlon.

Hoffai'r adolygwyr ddiolch i'r holl ymarferwyr a gymerodd ran yn yr adolygiad ac i'w sicrhau nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu neu nodi y byddai modd rhagweld neu atal marwolaeth y plentyn o ganlyniad i archwilio'r holl ddogfennau a gyflwynwyd a'r trafodaethau a'r sylwadau a gafwyd yn ystod y digwyddiad dysgu.

**Rhestr Ddarllen**

BIPBC (2015) *Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer monitro 'Ni Ddaethpwyd â'r Plentyn' ar gyfer apwyntiadau neu oruchwyliaeth mewn lleoliadau acíwt a chymunedol.* Fersiwn 0.2

Bruce M (2014) The Voice of the Child in Child Protection: Whose Voice. Ar gael yn https://www.researchgate.net/publication/307743333_The_Voice_of_the_Child_in_Child_Protection_Whose_Voice (Cyrchwyd 10/2/22)

Community Care (2022) Social workers unlikely to act quickly on neglect cases. Ar gael yn: https://www.communitycare.co.uk/social-workers-unlikely-to-act-quickly-on-neglect-cases/ (Cyrchwyd 10/3/22)

Horwath and Tarr (2015) The Child as Object of Neglect ar https://www.cumbria.gov.uk/eLibrary/Content/Internet/537/6683/6687/6689/6821/4309010344.pdf

Munro, E (2011) "The Munro review of child protection: final report: A child-centred system." Cyfeiriad yn Bruce M (2014) The Voice of the Child in Child Protection: Whose Voice. Ar gael yn https://www.researchgate.net/publication/307743333_The_Voice_of_the_Child_in_Child_Protection_Whose_Voice (Cyrchwyd 10/2/22)

Canllaw Ymarfer ar gyfer Gweithio gyda Phobl sy'n arddangos Cydymffurfiaeth Gudd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (2020). Ar gael yn: https://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2020/11/NW-Practice-Guide-Working-with-people-who-display-disguised-compliance.pdf

NSPCC (2013) Neglect and Serious Case Reviews A report from the University of East Anglia. Ar gael yn: https://learning.nspcc.org.uk/media/1053/neglect-serious-case-reviews-report.pdf Cyrchwyd 16/2/22

NSPCC (2015) Hidden men: learning from case reviews. Ar gael yn: https://learning.nspcc.org.uk/media/1341/learning-from-case-reviews_hidden-men.pdf. Cyrchwyd 17/2/22

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (2021) Adnabod ac Ymateb i Esgeulustod Ar gael yn: https://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2021/11/Neglect-1-2.pdf

Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (2021) Canllawiau Profiad Bywyd Dyddiol Plant, Rhieni a Gofalwyr. Ar gael yn: https://www.northwalessafeguardingboard.wales/wp-content/uploads/2021/11/Daily-Lived-Experience-Guidance.pdf)

NSPCC (2020) cyfeirir yn https://www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/neglect/#

**ADOLYGWR 1**

**Datganiad annibyniaeth o'r achos**
*Datganiad o gymhwyster at ddibenion sicrhau ansawdd*

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn
cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

**Adolygwr 1**

(Llofnod)

Enw:
(Priflythrennau): Vicky Allen

Dyddiad: 19/12/2022

**ADOLYGWR 2**

**Datganiad annibyniaeth o'r achos**
*Datganiad o gymhwyster at ddibenion sicrhau ansawdd*

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn
cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

**Adolygwr 2**

(Llofnod)

Enw:
(Priflythrennau): Lisa Cappa

Dyddiad: 16/12/2022

**Cadeirydd y Panel Adolygu**

(Llofnod)

Enw:
(Priflythrennau): Sophie Chance

Dyddiad: 16/12/2022

---

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl**
**Atodiad 2: Amserlen gryno**

**Proses Adolygiadau Ymarfer Plant**

*I'w gynnwys yma (yn fras):*

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Y digwyddiad dysgu a gynhaliwyd a'r gwasanaethau a fynychodd*
- *Hysbyswyd aelodau o'r teulu, gofynnwyd am eu barn ac fe'i cynrychiolwyd drwy'r digwyddiad dysgu a darparwyd adborth iddynt.*

Gwrthododd y teulu gymryd rhan ☐

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad y cafodd llythyr o gydnabyddiaeth ei anfon at Gadeirydd y Bwrdd

Dyddiad ei ddosbarthu i'r arolygiaethau/arweinwyr polisi perthnasol

| Asiantaethau | Ydi | Nac ydi | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Arolygiaeth Heddluoedd Heddlu ei Fawrhydi | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Gwasanaeth Prawf | | | |